**EITEM AR YR AGENDA: 5**

**GWASANAETH TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU**

**ADRODDIAD AR GYFER PANEL GWEITHREDOL YR AWDURDOD TÂN**

| | |
|---|---|
| DYDDIAD: | 23ain Chwefror 2004 |
| ADRODDIAD GAN: | **Y PRIF SWYDDOG TÂN** |
| DIBEN YR ADRODDIAD: | Rhoi gwybod i'r Aelodau am yr ymatebiadau i'r ymgynghoriad ar "Dweud eich Dweud", sef Cynllun Integredig Rheoli Risg drafft yr Awdurdod Tân. |

1. **<u>CYFLWYNIAD</u>**

1.1 Yn Rhagfyr 2002 gwnaeth y Dirprwy Brif Weinidog hi'n glir y dylid cael rhaglen o ddiwygio a moderneiddio'r fframwaith y mae'r gwasanaeth tân yn gweithredu o'i fewn. Elfen allweddol o'r rhaglen honno oedd yr angen i awdurdodau tân lunio Cynlluniau Integredig Rheoli Risg.

1.2 Rhwng Mehefin a Hydref 2003 bu'r Panel Gweithredol yn cyfarfod yn rheolaidd fel gweithgor y Cynllun Risg. Cyhoeddwyd y Cynllun ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus, a ddaeth i ben ar 31ain Ionawr 2004.

1.3 Diben y papur hwn yw rhoi crynodeb o'r ymatebiadau a ddaeth i law yn ystod y cyfnod ymgynghori.

2. **<u>YMATEBIADAU</u>**

2.1 Derbyniodd yr Awdurdod 34 o ymatebiadau i'r Cynllun. Roedd hyn yn cynnwys ymatebiadau gan 15 aelod o staff a 2 gyn aelod o staff.

2.2 Derbyniwyd ymateb gan Lywodraeth Cynulliad Cymru, Cymdeithas Cynghorau Tref Gogledd Cymru, Cymdeithas Fasnach Dyffryn Clwyd, Cyngor Cefn Gwlad Cymru, 2 Gyngor Tref, 2 Wasanaeth Tân ac Achub, un o Aelodau'r Cynulliad, Consortiwm Adwerthu Prydain, *BAFE (British Approvals for Fire Equipment)* a'r *FPA (Fire Protection Association)* o'r diwydiant tân, un Awdurdod Unedol, cwmni rheoli ystadau, Ymddiriedolaeth Ambiwlans Cymru, ac Undeb y Brigadau Tân.

2.3 Roedd yr ymatebiadau'n amrywio o ran hyd a ffocws, gyda ambell un wedi canolbwyntio ar un neu ddau o agweddau ar y Cynllun.

2.4 Mae rhai ymatebiadau'n dal i ddod i law ar ôl gwneud yr adroddiad hwn, ac y tu allan i'r cyfnod ymgynghori.

2.5 Mae'r tabl ynghlwm yn rhestru'n fanwl y materion a godwyd ynghylch pobl risg, ac mae colofn ymateb yn ymdrin â phob agwedd lle bo hynny'n briodol.

3. **RISGIAU**

Mae'r canlynol yn crynhoi'r sylwadau a ddaeth i law ynghylch pob risg.

3.1 Risg1 – Marwolaethau oherwydd Tân

- Cefnogaeth i ragor o Ddiogelwch Tân Cymunedol (DTC).
- Cefnogaeth i ddefnyddio ymladdwyr tân rhan amser.
- Cefnogaeth i ddefnyddio staff di-lifrai ar gyfer DTC.
- Pryder y byddid yn medru gwneud llai o waith ymyrryd cyn i'r gwaith atal fod wedi cael effaith.

Nid yw dadl yr Undeb fod y rhan y fwyaf o bobl yn marw yn oriau mân y bore yn seiliedig ar yr ymchwil a wnaed ar farwolaethau oherwydd tân yng Ngogledd Cymru.

3.2 Risg 2 – Presenoldeb y Gwasanaeth Tân ac Achub

- Cefnogaeth i fwy o broffil
- Cefnogaeth i fod yn fwy hygyrch

Derbyniwyd croeso gochelgar gan yr Undeb, ond roeddynt yn gofyn am sicrhad y bydd yr adeiladau'n ddiogel a'r effaith ar weithgarwch craidd.

3.3 Risg 3 – Larymau Tân Awtomatig

- Cefnogaeth i'r polisi larymau.
- Pryder y byddai oedi wrth fynd at danau go iawn.
- Awgrymiadau y byddai codi tâl yn well nag ymateb yn ôl barn.

Mae'r pryderon yn ymwneud mwy â manylion y polisi na'r angen i ostwng nifer y galwadau diangen. Mae'r Undeb yn bryderus am y posibilrwydd o dân yn datblygu oherwydd oedi. Mae'r aelodau'n ymwybodol nad oes bwriad peidio ag ymateb i dân sydd wedi ei gadarnhau, a bydd y polisi'n adlewyrchu hyn yn iawn. Mae'r aelodau hefyd yn ymwybodol nad oes gennym yr hawl i godi tâl ar hyn o bryd.

3.4 Risg 4 – Safonau Gofal Tân

- Mae'r ymatebiadau'n dangos dymuniad am ragor o wybodaeth ar fesur y safonau newydd.
- Pwysleisio bod ymyrryd yn dal yn bwysig

Mae'r Undeb yn ystyried bod yr ymrwymiad cyffredinol o gyrraedd mor fuan â phosib yn annerbyniol ac yn amhroffesiynol, a byddai'n well ganddynt osod "safonau cyrraedd realistig". Nododd yr Undeb hefyd ei fod wedi ymrwymo'n llawn i gynorthwyo'r Awdurdod i gynnal/wella'r safonau cyrraedd presennol. Mae'r Awdurdod yn credu nad oes dim yn fwy realistig na chyrraedd digwyddiadau gyda'r adnoddau agosaf yn yr amser cyflymaf posib. Mae Dangosyddion Perfformiad wrthi'n cael eu datblygu er mwyn gofalu bod pob math o ddigwyddiadau'n cael eu monitro'n barhaus er mwyn cynnal y lefelau uchaf o wasanaeth.

3 **RISGIAU** *(parhad)*

3.5 Risg 5 – Patrymau Shifftiau

- Cefnogaeth i drefnu bod ar gael ar yr un pryd â'r galw.
- Pryder nad yw newid amseroedd y shifftiau'n deulu-gyfeillgar.
- Cefnogaeth i asesu cytundebau rhan amser.

Gweithwyr o fewn y system bresennol a'r Undeb roddodd yr ymatebiadau a'r pryderon ynghylch newid amseroedd y shifftiau. Roedd yr Aelodau'n gallu gweld y bydd yr amseroedd newydd yn cyd-fynd â'r galw mwyaf ac yn gwella'r amseroedd cyrraedd, tra'n peidio â tharfu ar staff a'u cael i ddychwelyd i'r orsaf yn ystod y cyfnod prysur gyda'r nos.

3.6 Risg 6 - Cydbwysedd mewn Adnoddau

- Cefnogaeth i adolygu peiriannau arbenigol.
- Cefnogaeth i'r egwyddor o reoli galwadau.
- Ymholiadau'n ymwneud â chau gorsafoedd.

Roedd rhai pryderon cyffredinol ynghylch defnyddio cerbydau eraill ar gyfer cludo ymladdwyr i ddigwyddiadau. Byddwn yn edrych ar y manylion fel rhan o'r adolygiad, a rhoddir ystyriaeth i'r pryderon a godwyd gan yr ymatebwyr.

3.7 Risg 7 – Tanau Bwriadol

- Cefnogaeth i'r holl gamau a gynigir
- Dymuniad i sicrhau bod y sgiliau ymchwilio i dân yn cael eu defnyddio'n llawn

Byddwn yn gwneud defnydd o'r cydweithio gyda'r Heddlu a chyrff eraill er mwyn hybu canfod ac atal tanau bwriadol, gan ddefnyddio sgiliau ein hymchwilwyr i dân.

3.8 Risg 8 – Strwythur

- Cefnogaeth gan yr Undeb i'r newidiadau, gyda thrafodaethau parhaus.
- Pryder gan weithwyr am rai manylion.

Awgrymiadau y bod y strwythur reolaethol yn organig o ran natur er mwyn parhau'n hyblyg. Caiff y farn hon ei chefnogi a bydd yr effeithiolrwydd yn cael ei fonitro er mwyn sicrhau bod gwaith yr ardaloedd a'r ganolfan yn gydlynol er mwyn cyflawni ein hamcanion.

4. **SYLWADAU YCHWANEGOL**

Mae'r canlynol yn sylwadau mwy cyffredinol a dderbyniwyd, ac ymdrinnir â hwy yn llawnach yn y tabl.

4.1 Nid oedd cysondeb o ran yr ymatebiadau i fater yr ystafell reoli. Roedd yr Undeb yn dymuno gweld un ystafell reoli unigol yn aros er eu bod am gael rhan lawn mewn unrhyw astudiaeth dichonolrwydd ar ystafell reoli ar y cyd. Hyn ddylai bwriad yr Awdurdod fod.

4.2 Cefnogaeth gyffredinol i'r syniad o gyd-ymateb.

4.3 Cefnogaeth i newid pwyslais o ymyrryd i atal a diogelwch tân cymunedol.

4.4 Roedd rhychwant o ymatebiadau yn canmol diwyg y cynllun.

4 **SYLWADAU YCHWANEGOL** *(parhad)*

4.5 Roedd rhai o'r awgrymiadau am ychwanegiadau i'r Cynllun yn sôn yn benodol am strategaeth diogelwch ar y ffyrdd, gwarchod yr amgylchedd a'r dreftadaeth; materion cydraddoldeb ac amrywiaeth y gweithlu. Mae'r rhain yn feysydd y gellir eu datblygu ymhellach mewn Cynlluniau yn y dyfodol.

4.6 Roedd rhai pryderon gan nifer o ymatebwyr nad oedd digon o fanylion a data gefndirol yn y Cynllun. Fodd bynnag, bydd yr Aelodau'n ymwybodol fod pob rhan o'r Cynllun yn seiliedig ar dystiolaeth ac y byddai cynnwys yr holl dystiolaeth wedi gwneud y cynllun yn anos ei ddarllen ac yn fwy strategol.

4.7 Mae ymateb yr Undeb yn cyfeirio mewn sawl lle at y perygl y gallai'r awdurdod tân gael ei herio o safbwynt y safonau lleol ar gyfer pethau fel amseroedd cyrraedd, nifer y criwiau ar gerbydau ac ati o gael gwared ar y safonau cenedlaethol. Mae'r Undeb yn iawn y gallai'r awdurdod tân fod yn fyw tebygol o gael ei herio, o ystyried y gallai o'r blaen "guddio y tu ôl" i'r safonau cenedlaethol. Ond, cyngor y Clerc yw fod datganiadau gan yr Undeb megis:

- "Bydd unrhyw awdurdod tân neu uwch swyddog sy'n rhoi ar waith safonau cyrraedd sy'n is na'r safonau cenedlaethol presennol, neu'n mabwysiadu polisi o beidio â throi allan neu anfon llai o adnoddau at ddigwyddiadau [larymau tân awtomatig], drwy hynny'n agored i gamau cyfreithiol posib"; a

- "Bydd y Cynllun Risg, a'r ad-drefnu adnoddau a fydd yn dilyn o hynny, yn unol â'r fframwaith gyfreithiol newydd dim ond pan fyddant yn cyflwyno safonau cyrraedd gwell ac nid gwaeth"

naill ai'n anghywir neu'n gamarweiniol. Barn y Clerc yw fod gan yr awdurdod tân, cyhyd ag y gall ddangos ei fod wedi asesu'n drylwyr trwy ei seilio ar y dystiolaeth, ac, yn achos ei weithwyr, wedi gwneud asesiad iechyd a diogelwch, hawl i fabwysiadu safonau a pholisïau gwahanol i'r rhai oedd yn y safonau cenedlaethol o'r blaen, ac mae'n rhesymol iddo wneud hynny. Mae hyn yn cynnwys y gallu i osod safonau uwch neu is o ran nifer y peiriannau (os o gwbl) sy'n mynd at ddigwyddiadau, nifer y criw ar bob peiriant, ac ati. Gan fod y Cynllun yn ddogfen lefel-uchel, nid oes angen cynnwys y manylion llawn am yr asesiadau yn y Cynllun ei hun.

5. **CASGLIADAU**

Mae nifer o rannau wedi cael cefnogaeth, gan gynnwys prif egwyddorion y Cynllun sef newid y ffocws o ymyrryd i atal, ac ymrwymiad yr Awdurdod i gymunedau lleol.

5.2 Yn gyffredinol, mae'r meysydd pryderon yn ymwneud â manylion y Cynllun a sut bydd yn effeithio ar weithwyr unigol. Ymdrinnir â'r meysydd hyn trwy ymgynghoriad gyda'r cyrff cynrychioliadol.

6. **ARGYMHELLION**

6.1 Bod yr Aelodau'n nodi cynnwys yr adroddiad
6.2 Bod yr Aelodau'n ystyried pa ychwanegiadau neu newidiadau y dylid eu hargymell i'r Awdurdod llawn eu mabwysiadu yn y cynllun drafft.